CYNLLUN BYW'N GLYFAR LLYWODRAETH CYMRU

# Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan ar gyfer Datgarboneiddio (WSRID) Byw'n Glyfar 1.0 Cam 1
# Her SBRI Contractau Arloesi

## CANLLAWIAU'R GYSTADLEUAETH

## Tabl Cynnwys


Cyflwyniad i Byw'n Glyfar.......2
Paratoi eich cais.......11
Cyflwyno cais.......14
Y Broses Asesu.......14
Atodiad A – Telerau ac amodau cyfreithiol.......16
Atodiad B – proses SBRI Contractau Arloesi.......19
Atodiad C – Swyddogaethau a chyfrifoldebau.......21
Atodiad D – Geirfa.......22

# Cyflwyniad i Byw'n Glyfar

## Beth yw cynllun Byw'n Glyfar?

Byw'n Glyfar yw rhaglen arloesedd datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, â chenhadaeth i:

1. **Catalyddu** atebion arloesedd datgarboneiddio i faterion seiliedig ar leoedd ac a arweinir gan anghenion.
2. **Datblygu** cysyniadau a dyluniadau ar gyfer creu llwybrau datgarboneiddio carbon sero net gan ddefnyddio dyluniadau system gyfan ar draws sectorau a fectorau lluosog.
3. **Pontio** methiannau'r farchnad hysbys sy'n effeithio ar allu arloesedd busnes i ffynnu a darparu atebion trwy gysylltu busnesau â chyrff cyhoeddus a'r byd academaidd.
4. **Meithrin** rhyngweithiadau swyddogaethau ehangach rhwng cyfranogwyr, adeiladau, rhwydweithiau a seilwaith naturiol ac artiffisial i alluogi cwmpas digonol ar gyfer dadansoddi systemau gan ddarparu atebion cadarn ar gyfer materion seiliedig ar leoedd ar sail fodiwlar.

Sefydlwyd Byw'n Glyfar gyntaf yn 2015, a'i nod craidd yw catalyddu a chefnogi prosiectau datgarboneiddio arloesol cyn y farchnad amrywiol, gan ganolbwyntio ar atebion seiliedig ar leoedd ac a arweinir gan anghenion y mae angen eu treialu yn y byd go iawn cyn y gellir eu haddasu a'u cyflwyno ar raddfa fwy. Ei nod hefyd yw cyflymu datblygiad gweithgareddau arloesol trwy ddarparu llwybr parhaus o gysyniad i beilot ar gyfer arloesedd o ran datgarboneiddio, gan gael gwared ar rwystrau a all achosi oediadau.
Trwy fabwysiadu'r dull hwn, nod y cynllun yw darparu manteision ychwanegol y tu hwnt i'w gwmpas, gan sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd yn lleol.

| Egwyddor y cynllun | Manteision |
|---|---|
| Wedi'i arwain gan sefydliadau sector cyhoeddus , a'i ddarparu gan y sector preifat | • Yn gwella trosoledd y sector cyhoeddus o ran datgarboneiddio y tu hwnt i'w hystadau eu hunain i mewn i'w hardaloedd lleol ar gyfer manteision a gwasanaethau ehangach<br>• Yn cyfeirio manteision at fusnesau sy'n cymryd rhan a'u cyflogeion trwy fwy o fusnes ac elw a chyflogau uwch.<br>• Yn canolbwyntio cymorth arloesi lle mae'n ategu polisi newid hinsawdd ac ynni Cymru.<br>• Yn creu consortia o randdeiliaid allweddol ac yn sefydlu clystyrau busnes gan ddarparu manteision lleol, rhannu risgiau ac annog buddsoddiad lleol. |

| | |
|---|---|
| Seiliedig ar leoedd | • Yn darparu arloesedd sy'n ategu nodweddion lleol a photensial cynhenid ardal leol.<br>• Yn teilwra arloesedd i fynd i'r afael ag anghenion penodol cymunedau lleol. |
| Dull systemau cyfan | • Yn meithrin rhwydweithiau o arloesedd i gynorthwyo awdurdodau lleol a sefydliadau partner i ddarparu prosiectau mewn cyd-destunau lleol.<br>• Yn cysylltu cyfranogwyr system i annog cyfnewid gwybodaeth ac adeiladu capasiti.<br>• Yn darparu llwyfan ar gyfer cydweithredu ymhlith rhanddeiliaid, gan gynnwys rhwng Llywodraeth Cymru a diwydiant.<br>• Yn nodi'n fwy effeithiol cyllid system gyfan a/neu fylchau adnoddau i leihau'r perygl o ailadrodd ymdrechion.<br>• Yn rhoi mwy o eglurder ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sy'n cynyddu hyder ar draws y diwydiant wedyn.<br>• Yn cynyddu cynhyrchiant ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol system artiffisial. |
| Wedi'i arwain gan anghenion | • Yn osgoi ailadrodd ymdrechion ac adnoddau.<br>• Yn cyflwyno cyllid sy'n cyd-fynd â pholisi, technolegau a marchnadoedd sy'n newid. |

Fel rheol, darperir prosiectau cynllun Byw'n Glyfar mewn partneriaeth ar gyfer a chyda chyfranogwyr llywodraethol lleol a sector cyhoeddus Cymru ac fe'u harweinir gan sefydliadau masnachol a sefydliadau academaidd. Maent hefyd yn cysylltu â mentrau Llywodraeth Cymru cam diweddarach a buddsoddiad cyhoeddus a phreifat arall.

Fe wnaeth y cynllun dreialu pum rhaglen Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)[1] olynol ar gyfer datgarboneiddio system gyfan (WBRID) ac wedi'i arwain gan hydrogen (HYBRID) rhwng 2021 a 2024. Roedd rhaglenni WBRID a HYBRID ill dau yn dreialon i archwilio dyheadau polisi a strategol ar gyfer datgarboneiddio ac arloesedd ledled Cymru.

[1]Sylwer, ar lefel y DU, bod fframwaith 'SBRI' wedi cael ei ailenwi'n 'Contractau Arloesi' yn ddiweddar gan Innovate UK (Mai 2024). Ar lefel weithredu Llywodraeth Cymru bydd yn cael ei adnabod fel SBRI Contractau Arloesi at ddibenion y gystadleuaeth hon. Gweler [Contractau Arloesi Innovate UK – Ymchwil ac Arloesi y DU] am ragor o wybodaeth.

Hyd yma, mae rhaglenni SBRI Byw'n Glyfar wedi darparu cyllid fel cronfeydd cyllid sbarduno bach ar gyfer astudiaethau dylunio a dichonoldeb cynnar ar gyfer prosiect 'arddangoswyr' arloesol; a chyda chronfeydd rhwng £25,000 a £500,000 i ddatblygu astudiaethau dichonoldeb a chynlluniau gwaith sy'n arwain at brosiectau arddangoswyr cwbl weithredol ar lawr gwlad.

Derbyniodd cyfanswm o 39 o brosiectau gymorth a chyllid cyn-fasnachol ar draws y rhaglenni peilot SBRI system gyfan (WBRID) ac wedi'i arwain gan hydrogen (HYBRID). Mae dros 85% o'r prosiectau ton gyntaf hyn yn cael eu cynorthwyo a'u datblygu'n barhaus y tu hwnt i gwmpas cyllid SBRI a ddarperir trwy gynllun Byw'n Glyfar. Gellir dod o hyd i astudiaethau achos ar gyfer 6 o'r prosiectau arddangoswyr Cam Dau ar wefan Llywodraeth Cymru: Byw'n Glyfar - Astudiaethau Achos o Raglenni Peilot HYBRID a WBRID SBRI.

## Beth yw'r ysgogiadau strategol a pholisi ar gyfer Byw'n Glyfar?

Mae Byw'n Glyfar yn hanfodol bwysig i gyflawni cenhadaeth arloesedd Hinsawdd a Natur Llywodraeth Cymru, a nodwyd fel un o bedair cenhadaeth i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o "greu a meithrin diwylliant arloesi bywiog ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach".[2] Yn ogystal â bod yn arwydd cryf o fwriad Llywodraeth Cymru o gefnogi arloesedd ar gyfer datgarboneiddio ledled Cymru, hysbyswyd Byw'n Glyfar gan gyfres o strategaethau, polisïau a rhaglenni allweddol yng Nghymru, ac mae'n parhau i gael ei fframio gan y rhain. Maent yn cynnwys:

- Y nodau a amlinellir yn Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni, gan gynnwys y nodau Amgylchedd a Natur: *"Defnyddio arloesedd i leihau lefel yr allyriadau carbon a gynhyrchir gan gartrefi a thrafnidiaeth"* ac *"arloesedd i gyflymu'r gwaith o ddatblygu a defnyddio dulliau cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy"*. Mae'r Strategaeth Arloesi wedi datblygu cynllun gweithredu i helpu i ysgogi cyfranogiad traws-sector mewn gweithgarwch arloesi, a chyfraniadau ato ac ymateb iddo.
- Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach (2023) Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig pwyslais ar sgiliau sero net a chyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd a swyddi gwyrdd, yn cyd-fynd â diben a chenhadaeth Byw'n Glyfar. Mae arloesedd yn nodwedd allweddol o'r weledigaeth, sy'n cynnwys nodau i *"Gynyddu nifer, effaith, amrywiaeth ac uchelgais busnesau sydd wrthi'n arloesi yng Nghymru."* a *"Cynyddu'r mynediad at fuddsoddiad preifat arbenigol mewn arloesedd technolegol-cynhyrchiol."*.
- Mae Cymru gryfach, decach a gwyrddach: sgiliau sero net yn cyflwyno cynllun ar gyfer darparu sgiliau sy'n ofynnol i sicrhau sero net yng Nghymru. Nod Byw'n Glyfar yw cefnogi datblygiad sgiliau trwy feithrin adeiladu capasiti a chyfnewid gwybodaeth trwy gymunedau ymarfer.

[2] Cymru'n arloesi: creu cymru gryfach, decach, a gwyrddach | LLYW.CYMRU

- Gweithredu Hinsawdd Cymru: Strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd 2023 i 2026 ar agweddau, rhwystrau ac ysgogiadau o ran gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd o Gynllun Cymru Sero Net. Gall ymgysylltu cymunedol i amlygu'r manteision ar y cyd o ddatgarboneiddio arwain at newid ymddygiad. Mae hyn yn cyd-fynd â chefnogaeth Byw'n Glyfar i gyd-ddatblygiad a chydberchnogaeth o atebion.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- Y Fframwaith Pontio Teg (2024), sy'n amlygu cyfleoedd ar gyfer defnyddio arloesedd ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Nod Byw'n Glyfar yw hyrwyddo gwyddor dinasyddion i gefnogi datblygiad atebion sydd wedi'u teilwra i anghenion cymunedau lleol.
- Y Rhaglen Cartrefi Clyd Newydd: datganiad polisi [HTML] | LLYW.CYMRU, yw prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd, sy'n flaenoriaeth allweddol y mae Byw'n Glyfar yn bwriadu mynd i'r afael â hi. Mae rhagor o wybodaeth am bolisi a rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd ar gael yn: Cynllun Cartrefi Cynnes Nyth | LLYW.CYMRU, Cyfarfod Llawn 12/03/2024 - Senedd Cymru (senedd.cymru), Cynllun Cartrefi Cynnes Nyth | LLYW.CYMRU, Cael cymorth gydag effeithlonrwydd ynni yn eich cartref gan Nyth | LLYW.CYMRU.
- The Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25)**,** sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn bodloni ei hail gyllideb garbon, a'r Cynllun strategol Sero Net Llywodraeth Cymru (2022) cysylltiedig, sy'n amlinellu mentrau a thargedau ar gyfer y daith i sero net.

Mae Cynlluniau Ynni Rhanbarthol (REPs) a Chynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEPs) yn ymrwymiad allweddol a gyflwynir yn **Polisi 20: Lleihau risgiau ac integreiddio buddsoddiad yng Nghymru drwy gynllunio ynni.** Dull sydd â'r bwriad o hysbysu penderfyniadau strategol ynglŷn â lle mae gwahanol dechnolegau carbon isel yn cael eu lleoli yw LAEP, i ddiwallu anghenion ynni lleol a sicrhau'r cost-effeithiolrwydd a'r manteision lleol mwyaf posibl o ddatgarboneiddio. Mae'n eglur bod gan Byw'n Glyfar ran bwysig i'w chwarae o ran hwyluso arloesedd cyn y farchnad i ddatblygu'r wybodaeth a'r galluoedd angenrheidiol i sicrhau'r atebion gorau posibl i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir mewn LAEPs, yn ogystal â chreu llwybrau cryfach i'r farchnad ac achosion masnachol i ddenu buddsoddiad yn y dyfodol gan sefydliadau cenedlaethol fel Innovate UK a sefydliadau lleol fel Ynni Cymru. Mae LAEPs yn blaenoriaethu atebion systemau cyfan, seiliedig ar leoedd i ddatgarboneiddio'r system ynni a thrwy hynny'n uniongyrchol, cefnogi amcan Llywodraeth Cymru o 1.5GW o berchnogaeth leol o gynhyrchiad adnewyddadwy erbyn 2035, a nodi ffyrdd o leddfu pwysau capasiti ar y rhwydwaith dosbarthu sy'n cael trafferth yn cadw i fyny â gosodiadau cynyddol o asedau cynhyrchu adnewyddadwy.

Mae WSRID yn ategu amcanion Ynni Cymru o ehangu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo lleol a ddefnyddir ac a gynhyrchir yng Nghymru a chyflymu'r newid i Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES) a'r defnydd ohonynt.

Mae rhagor o fanylion am bolisïau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â’r newid yn yr hinsawdd, pontio ynni ac arloesedd ar gael yn: https://www.llyw.cymru/newid-yn-yr-hinsawdd , https://www.llyw.cymru/ynni-carbon-isel a Strategaeth arloesi i Gymru | LLYW.CYMRU.

Government challenges.
Ideas from business.
Innovative solutions.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan ar gyfer Datgarboneiddio 1.0 (WSRID 1.0) SBRI Contractau Arloesi

## Disgrifiad

Mae profiadau'r rhai a gymerodd rhan yn y rhaglenni arloesi SBRI Byw'n Glyfar blaenorol WBRID a HYBRID yn amlygu'r angen am:

- Ddysgu o brosiectau arloesol i fynd i'r afael â dyheadau carbon sero net ac economaidd a chreu trawsnewid gwirioneddol ar lawr gwlad.
- Cyflawni'n gredadwy yn y maes hwn i fanteisio ar gyfleoedd am gyllid arloesi posibl o'r DU, Ewrop a chan fusnesau preifat pan fyddant yn codi ac yn briodol.
- Archwilio dull pontio cyfalaf ar gyfer datblygu yn arwain at biblinell reolaidd ar gyfer prosiectau arloesedd datgarboneiddio llwyddiannus yng Nghymru.
- Cynnal dull cystadleuol parhaus sy'n annog cyfranogiad a gweithgareddau o ansawdd yn cefnogi llwybr Cymru.
- Mynd i'r afael anawsterau strwythurol sy'n effeithio ar gyllid ar gyfer arloesedd datgarboneiddio yng Nghymru.
- Cefnogi arloesedd sy'n ategu ac yn dysgu o genhadaeth Ynni Cymru i ehangu cynhyrchiad ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned a Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES). Bydd SLES yn dod â chyflenwi, storio a defnyddio ynni at ei gilydd i greu lleol clyfar o ran ynni, wedi'u galluogi gan y technolegau diweddaraf.

Gan adeiladu ar y llwyddiannau a'r dysgu o raglenni SBRI Contractau Arloesi Byw'n Glyfar yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn ar hyn o bryd am geisiadau gan sefydliadau sector cyhoeddus i gynnig heriau datgarboneiddio seiliedig ar leoedd a fydd yn bwyslais i raglen SBRI Contractau Arloesi newydd o'r enw **Rhaglen Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan ar gyfer Datgarboneiddio 1.0 (WSRID 1.0) SBRI Contractau Arloesi.**

Yn rhan o'r rhaglen hon, hoffai Llywodraeth Cymru ddyfarnu hyd at £2 filiwn posibl ar draws dau gam ar wahân rhwng 2024 a 2026.

## Amcanion

Bydd gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru LEAP erbyn diwedd 2024, a fydd yn ddull â'r bwriad o hysbysu penderfyniadau strategol ynglŷn â lle mae gwahanol dechnolegau carbon isel yn cael eu lleoli, wedi'u hysbysu gan anghenion ynni a nodweddion rhwydwaith, yn ogystal â chost-effeithiolrwydd, ac i ba raddau y maent yn darparu manteision economaidd a chymdeithasol nawr ac yn y dyfodol. Mae'r LAEPs yn ei gwneud yn eglur y bydd sicrhau'r cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol i ddatgarboneiddio'r system ynni yn llawn o fewn cyfyngiadau'r system bresennol yn gofyn am arloesedd cyn y farchnad sylweddol i baratoi cadwyni cyflenwi lleol, i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ac i wneud y gwaith caib a rhaw fel y gall technolegau dyfu'n gyflym ar ôl iddynt gael eu profi.

Bydd rhaglen WSRID 1.0 yn cefnogi proses gystadleuol i ddatblygu, profi a chael mynediad at atebion arloesol i'r heriau a'r anghenion datgarboneiddio sy'n cyflawni'r blaenoriaethau ynni a nodwyd mewn Cynlluniau Ynni Rhanbarthol (REP) a'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP) sy'n cwmpasu pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r amcanion a bennir yn y cynlluniau hyn yn fframwaith ar gyfer nodi heriau a dethol prosiectau ar gyfer rhaglen WSRID 1.0, gan atgyfnerthu ei hegwyddorion seiliedig ar leoedd, systemau cyfan ac a arweinir gan anghenion. Bydd defnyddio'r LAEPs fel y fframwaith ar gyfer y rhaglen hon yn gwneud yn siŵr bod cyllid yn cael ei ddarparu lle mae ei angen fwyaf, ac ar gyfer atebion sy'n sicrhau'r budd mwyaf i'r cymunedau lleol lle maent wedi'u lleoli. Bydd yn helpu i ddatblygu galluoedd a sgiliau lleol ac yn gadael sylfaen gref y gall cymunedau a busnesau lleol deimlo wedi'u grymuso ohoni a gallu chwarae rhan weithredol yn y newid i Sero Net.

Mae'r LAEPs yn nodi 6 thema systemau ynni pwysig, sy'n gorfodi'r ysgogiadau strategol a pholisi y cyfeiriwyd atynt uchod:

1. Datgarboneiddio gwres mewn cartrefi, gan flaenoriaethu'r aelwydydd hynny sy'n dioddef tlodi tanwydd neu mewn perygl o'i ddioddef.
2. Trydaneiddio seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth teithwyr.
3. Sicrhau mai teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yw'r dull o ddewis trwy ddatblygu rhwydweithiau trafnidiaeth clyfar ac integredig.
4. Manteisio i'r eithaf ar botensial Cymru ar gyfer cynhyrchu adnewyddadwy ar y tir tra'n cadw perchnogaeth a manteision lleol.
5. Datgarboneiddio clystyrau diwydiannol allweddol ledled Cymru.
6. Buddsoddi mewn capasiti ychwanegol ar y rhwydwaith trydan lle mae ei angen fwyaf a chymell defnyddwyr i gynnig gwasanaethau hyblygrwydd.

Dylid ystyried y themâu hyn, ochr yn ochr ag egwyddorion WSRID 1.0 a datganiad cenhadaeth ehangach Byw'n Glyfar wrth ddatblygu eich cais her.

## Model cyflawni

Bydd y rhaglen yn cael ei darparu gan ddefnyddio model Perchnogion Her SBRI[1] Contractau Arloesi. Y model hwn yw fframwaith caffael cyn-fasnachol y DU sy'n cynnig cyfle unigryw i sefydliadau a busnesau weithio'n uniongyrchol gyda'r sector cyhoeddus i ddatblygu atebion newydd ar gyfer heriau a/neu anghenion sector cyhoeddus.

Mae'n galluogi'r sector cyhoeddus i ymgysylltu â chyflenwyr arloesol, i gyd-greu a phrofi atebion mewn sefyllfaoedd byd go iawn. Gall leihau risg a chost arloesi, cynyddu effeithiolrwydd ac ansawdd a gwella effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol. Os hoffech ragor o wybodaeth am y model Contractau Arloesi SBRI cyffredinol, ewch i wefan Contractau Arloesi Innovate UK.

Bydd rhaglen WSRID 1.0 yn dilyn y model hwn ac yn cael ei darparu mewn dau gam, â phroses ymgeisio ragarweiniol i nodi heriau arloesi penodol, a sefydliadau sector

cyhoeddus addas i weithredu fel "Perchnogion Her". Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am swyddogaethau Perchnogion Her a'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn Atodiad C – Swyddogaethau a chyfrifoldebau.

1. **Sefydliadau Sector Cyhoeddus yn nodi heriau (y cais hwn)**

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am geisiadau gan sefydliadau sector cyhoeddus ar heriau sy'n cyd-fynd ag amcanion Rhaglen WSRID 1.0. Bydd cyllid o £100,000 yn cael ei ddyfarnu o bob Perchennog Her a ddewisir, a fydd yn gyfrifol am gynnal cystadleuaeth i nodi prosiectau sy'n mynd i'r afael â'r her. Bydd hyd at 5 gwahanol her yn cael eu dewis ar gyfer cyllid ar y cam hwn ledled Cymru. **Bydd yr alwad am Heriau yn agor ddechrau mis Medi 2024 ac yn agored ar gyfer ceisiadau am fis.**

2. **Cam Un y Gystadleuaeth (3 mis)**

Bydd y Perchnogion Her a benodir yn cynnal cystadleuaeth wedyn i ddod o hyd i brosiectau arloesol i fynd i'r afael â'r her y maent wedi ei dewis. Gall ymgeiswyr wneud cais am gyfran o'r cyllid a ddyrannir i'r gystadleuaeth. Dylai cynigion ar gyfer prosiectau ar y cam hwn ganolbwyntio ar fynd i'r afael â her benodol, a phrofi ymarferoldeb gwyddonol, technegol a masnachol yr ateb arfaethedig. Mae canlyniadau Cam Un yn penderfynu a ddylai'r ateb fynd ymlaen i Gam Dau yn 2025-2026.
**Sylwer: ni fydd pob prosiect yn symud ymlaen yn awtomatig i'r ail gam. Bydd hyn yn cael ei benderfynu trwy broses gystadleuol arall.**

**Dyfarniad contract**: Isafswm o ddau brosiect ac uchafswm o bedwar prosiect o fewn cyfanswm yr amlen gyllid o £100,000 a ddyfernir i bob Perchennog Her.
**Hyd:** 3 mis o ddyddiad dyfarnu'r contract. **Mae'n rhaid i bob prosiect Her Cam Un fod wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2025.**

3. **Cam Dau y Gystadleuaeth (12 mis)**

Mae'r brif ymdrech ymchwil a datblygu yn digwydd yng Ngham Dau, sydd â'r nod o gynhyrchu prototeip neu Arddangoswr wedi'i ddiffinio'n dda ar gyfer pob arloesiad a ddewiswyd. Ar ddiwedd Cam Dau, bwriedir y bydd yr hyn a ddatblygwyd yn cael ei weithgynhyrchu a'i farchnata fel ffordd o fodloni gofynion. Dylai fod gan brosiectau sy'n cwblhau Cam Dau yn llwyddiannus lwybr i fasnacheiddio.

**Dyfarniad contract:** Rhagwelir y bydd cyfanswm o £1.5 – 2 filiwn ar gael ar draws y prosiectau Arddangoswyr yng Ngham 2.
**Hyd:** 12 mis o ddyddiad dyfarnu'r contract.

Bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Gwasanaeth Ynni) yn cefnogi gyda darpariaeth y Rhaglen WSRID 1.0. Ers 2018, mae'r Gwasanaeth Ynni wedi cefnogi sefydliadau sector cyhoeddus i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu cynhyrchiad ynni adnewyddadwy sy'n eiddo lleol gyda chyngor technegol, masnachol, ariannol a chaffael. Mae'r Gwasanaeth Ynni, sy'n cyd-fynd a themâu allweddol Rhaglen WSRID 1.0 ac egwyddorion ehangach Byw'n Glyfar, wedi gweithredu fel rhanddeiliad allweddol yn natblygiad Cynlluniau Ynni Ardal Leol mewn 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru ac i nodi

atebion arloesol sy'n dod i'r amlwg i fynd i'r afael ag anghenion datgarboneiddio'r sector cyhoeddus. O ganlyniad i'r profiad hwn, mae'r Gwasanaeth Ynni mewn sefyllfa dda i gynnig cymorth technegol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Rhaglen WSRID 1.0. Mae rhagor o wybodaeth am y prosiectau a gefnogir gan y Gwasanaeth Ynni a'u heffaith ar gael yn Adroddiad Blynyddol 2022-2023 Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

## Sefydliadau sy'n gymwys i fod yn Berchnogion Her

Dim ond sefydliadau sector cyhoeddus sy'n gymwys i gyflwyno cais Her. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- Awdurdodau Lleol Cymru
- Bargeinion Dinesig a Chyrff Twf Rhanbarthol yng Nghymru
- Byrddau ac Ymddiriedolaethau Rhaglen Iechyd GIG Cymru

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae'n rhaid i'r her, a'r gystadleuaeth gysylltiedig, fod yn eiddo eglur i sefydliad sector cyhoeddus (y 'Perchennog Her') ac mae'n rhaid i geisiadau llwyddiannus ddangos dyraniad adnoddau digonol a phriodol ar gyfer ei gyfnod cyfan. Bydd y Perchennog Her yn gyfrifol am ymchwilio i themâu o fewn yr her a chaffael contractwyr i ddarparu prosiectau sy'n bodloni manyleb yr her. Bydd y Perchennog Her hefyd yn gyfrifol am reoli heriau llwyddiannus o ddydd i ddydd, gyda chymorth cynghorol gan Lywodraeth Cymru. Bydd cyrff cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i fireinio paramedrau'r rhaglen trwy adborth ar broses, dogfennau, rhwystrau/problemau, a'r rhyngweithio â Pherchnogion Her eraill y gystadleuaeth.

## Cwmpas y rhaglen

Gan mai nod Rhaglen WSRID 1.0 yw ariannu prosiectau arloesol i ddatblygu blaenoriaethau ynni'r REPs a'r LAEPs, dylai'r heriau a gynigir fynd i'r afael ag un neu fwy o'r themâu a nodir yn yr LAEPs a/neu'r REPs. Mae hefyd yn bwysig nodi bod WSRID, fel rhaglen arloesedd, yn canolbwyntio ar nodi atebion arloesol unigryw i her unigryw lle nad oes atebion sydd ar gael yn fasnachol yn bodoli neu nad ydynt yn addas. Ni fydd cyllid yn cael ei ddyfarnu lle bydd yr her yn arwain at ailadrodd arloesedd sy'n bodoli eisoes neu waith sydd ar y gweill gan bobl eraill.

# Paratoi eich cais

## Dyddiadau allweddol

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi dyddiadau allweddol ar gyfer Rhaglen WSRID 1.0 hyd at gwblhau Cam Un:

| | |
|---|---|
| Dyddiad agor | Dydd Llun 2 Medi 2024 |
| Digwyddiad briffio ar-lein | 13 Medi 2024 |
| Dyddiad cau | 30 Medi 2024 |
| Cyfweliadau â Pherchnogion Her ymgeisiol | Yr wythnos sy’n cychwyn ar 7 Hydref |
| Cyhoeddi Penderfyniad | 14 Hydref 2024 |
| Dyfarnu cyllid i Berchnogion Her | 17 Hydref 2024 |
| Darparu adborth | 17 Hydref 2024 |
| Cam Un yn Cychwyn – Caffael Cyflenwyr Prosiectau | 18 Hydref 2024 |
| Cyflawni Prosiectau Cam Un | Dydd Llun 31 Mawrth 2025 |

*Gallai’r holl ddyddiadau newid

Bydd y gystadleuaeth ar gyfer prosiectau Cam 2 yn cael ei chynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026.

Mae’r Ffurflen Gais ar gael ar-lein yn [https://www.llyw.cymru/cynllun-bywn-glyfar](https://www.llyw.cymru/cynllun-bywn-glyfar) .

Dylai’r cais ddisgrifio sut y bydd yr her a nodir yn mynd i’r afael ag amcanion rhaglen WSRID 1.0.

Wrth gwblhau cais, mae’n rhaid i’r ymgeisydd ddangos her sydd wedi cael ei hystyried yn drylwyr sy’n mynd i’r afael yn eglur ag amcanion Rhaglen WSRID 1.0. Mae’n rhaid i’r cais ddangos tystiolaeth o’r gallu i roi tîm ar waith a chyflwyno cystadleuaeth i ddarparu prosiectau i fynd i’r afael â’r her yn gyflym. Trwy’r broses gyfan, y Perchennog Her sy’n gyfrifol â Llywodraeth Cymru yn helpu i leihau risg y dull ac yn mabwysiadu gwahanol swyddogaethau yn dibynnu ar anghenion y cystadlaethau a’r prosiectau unigol.

Mae trosolwg o’r wybodaeth sy’n ofynnol yn y ffurflen gais ar gael isod:

| | | |
|---|---|---|
| Adran 1 – manylion yr ymgeisydd | 1.1 | Nodwch uwch berchennog cyfrifol (SRO) am ddarparu’r gystadleuaeth. |
| | 1.2 | Manylion yr unigolyn sy’n gyfrifol am reoli’r prosiect o ddydd i ddydd a’r gystadleuaeth. |
| | 1.3 | Manylion yr holl staff prosiect mewnol eraill a fydd yn cefnogi’r gwaith o reoli’r her ac unrhyw gymorth ymgynghori y bydd ei angen. |

| | | |
|---|---|---|
| Adran 2 – yr her | 2.1 | Teitl a chrynodeb ar gyfer yr Her y gellir eu defnyddio ar gyfer cyhoeddi. |
| | 2.2 | Sut mae'r Her arfaethedig yn mynd i'r afael â themâu rhaglen WSRID 1.0 **(a amlinellir yn y ddogfen hon).** |
| | 2.3 | Cyfiawnhau'r cydweddu strategaethau mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, Cymru a'r DU. |
| | 2.4 | Disgrifio sut fyddai canlyniad llwyddiannus o'r Her yn edrych. |
| | 2.5 | Gwaith ymchwil a wnaed i gadarnhau'r Her/angen arfaethedig. |
| | 2.6 | Disgrifiad o addasrwydd sefydliad ar gyfer ymgeisio. |
| Adran 3 – Rheoli a Darparu'r Prosiectau | 3.1 | Disgrifio'r cynllun rheoli prosiect ar gyfer yr Her. |
| | 3.2 | Disgrifio'r broses gaffael ar gyfer nodi cyflenwyr i ddarparu prosiectau'r Her. |
| | 3.3 | Disgrifio'r risgiau allweddol (Gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technegol, cyfreithiol, ac amgylcheddol) wrth ddarparu, a disgrifiwch sut y byddent yn cael eu lliniaru, os gwelwch yn dda. |
| | 3.4 | Disgrifiad cryno o'ch tîm darparu. |
| | 3.5 | Disgrifiwch randdeiliaid allweddol eich Her a'ch strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu allanol. |
| | 3.6 | Disgrifiwch eich strategaeth cyfathrebu a chaffael sy'n cael ei defnyddio i ddenu darpar fusnesau i ymateb i'r Her. |
| Adran 4 – Manylion ariannol | 4.1 | Rhowch ddadansoddiad o gostau yn ôl costau grant/gweinyddol a chostau ar gyfer Cam Un a Cham Dau. |
| | 4.2 | Disgrifiwch y broses monitro a gwerthuso prosiectau. |
| Adran 5 - Llofnodwyr | | Rhowch brawf dyddiedig o gymeradwyaeth gan y prif ymgeisydd a'r Uwch Swyddog Cyfrifol dynodedig. |

Tabl 1. Rhestr o gwestiynau yn Ffurflen Gais WSRID 1.0

## Swm a Hyd Cyllid Her a Phrosiectau

Mae'n rhaid i geisiadau restru'r holl gostau gan gynnwys TAW.

### Heriau

Yng Ngham Un, bydd cyllid hyd at £500,000 yn cael ei ddyfarnu i hyd at 5 o Berchnogion Her (hyd at £100,000 yr un). Byddant yn gyfrifol wedyn am gynnal cystadlaethau dilynol i ddyfarnu a dyrannu cyllid i gyflenwyr ddarparu prosiectau dichonoldeb arloesol.

### Prosiectau

Yng Ngham Un, disgwylir y bydd cyfanswm yr amlen gyllid o £100,000 a roddir i bob Perchennog Her yn cael ei ddyfarnu i isafswm o ddau brosiect ac uchafswm o bedwar prosiect. Mae cyllid pellach o oddeutu £1.5 i £2 filiwn yn debygol o fod ar gael yng Ngham Dau i Berchnogion Her ddarparu cam Arddangoswr rhaglen WSRID 1.0.

Pennwyd cyfraddau ymyrraeth ar 100% yng Ngham Un a 50% i 100% yng Ngham Dau.

Gall cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y gystadleuaeth newid. Mae gan yr arianwyr (Llywodraeth Cymru) yr hawl i:

- Addasu'r dyraniadau cyllid rhagarweiniol
- Amrywio'r raddfa a'r gyllideb yn dibynnu ar natur yr her a'r costau tebygol a fydd yn cael eu hysgwyddo wrth ddatblygu atebion.

Mae'n rhaid bod gan unrhyw geisiadau prosiect o leiaf 50% o werth y contract wedi'i briodoli'n uniongyrchol ac yn unig i wasanaethau Ymchwil a Datblygu, gan gynnig archwilio a dylunio atebion. Gall Ymchwil a Datblygu hefyd gynnwys prototeipio a phrofi'r cynnyrch neu'r gwasanaeth yn y maes. Mae hyn yn caniatáu i chi ymgorffori canlyniadau eich gwaith archwilio a dylunio ac yn dangos y gallwch gynhyrchu mewn swmp i safonau ansawdd derbyniol.

Nid yw Ymchwil a Datblygu yn cynnwys:

- gweithgareddau datblygu masnachol fel cynhyrchu swmp
- cyflenwad i ddarganfod hyfywedd masnachol neu i adennill costau Ymchwil a Datblygu
- integreiddio, teilwra neu addasiadau a gwelliannau fesul tipyn i gynhyrchion neu brosesau presennol.

Mae cyllid yn darparu arian tuag at gyllid y contract WSRID 1.0 chostau cysylltiedig (h.y. yr arian sy'n cyrraedd y busnes cyflenwi neu unrhyw sefydliad cyflenwi trydydd parti arall sy'n rhan o'r broses yn y pen draw) yn unig.

Nid yw costau Awdurdodau Lleol (staffio ac adnoddau eu hunain) sy'n gysylltiedig â rheoli a gweinyddu'r gystadleuaeth yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol.

### Digwyddiad Briffio a Rhwydweithio

Gwahoddir pob ymgeisydd i fod yn Berchennog Her ac unrhyw gyflenwyr darparu prosiectau ymhellach i lawr y gadwyn sydd â diddordeb mewn darganfod mwy am gystadleuaeth WSRID 1.0 i ddod i ddigwyddiad briffio 2 awr o hyd ar 13 Medi 2024 (gallai newid). Bydd dau ddigwyddiad yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru a De Cymru yn eu trefn mewn fformat personol/hybrid er hwylustod. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle i ymgeiswyr â diddordeb rwydweithio â darpar bartneriaid a chydweithredwyr, i ofyn cwestiynau am y gystadleuaeth ac i gyfarfod ag arbenigwyr o Lywodraeth Cymru.

Cofrestrwch eich diddordeb yn y digwyddiad briffio drwy anfon e-bost WSRID@energyservice.wales. Ysgrifennwch '**Cofrestru ar gyfer Digwyddiad Briffio**' yn llinell destun yr e-bost a nodwch ym mhrif aran yr e-bost pa un o'r ddau ddigwyddiad yr hoffech ddod iddo.

# Cyflwyno cais

**23:59 ar 30 Medi 2024 yw’r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais.**
Trwy gyflwyno cais, rydych yn cytuno â thelerau’r contract drafft sydd ar gael yn y dogfennau ategol. Nid yw gwneud cais yn sicrhau cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Anfonwch eich cais wedi’i gwblhau i WSRID@energyservice.wales. **Bydd ceisiadau yn cael eu derbyn trwy e-bost yn unig cyn 23:59 ar 30 Medi 2024.**

Ysgrifennwch ‘**WSRID 1.0 2024 - Cais Her Llawn**’ yn llinell destun yr e-bost i wneud yn siŵr nad yw’r cais yn cael ei fethu.

Darparwch dystiolaeth o gefnogaeth uwch gan lofnodwr awdurdodedig. Mae ceisiadau electronig yn cynnwys llofnodion wedi’u sganio yn dderbyniol neu negeseuon e-bost cefnogol eraill gan uwch gynrychiolwyr priodol y prif ymgeisydd.

## Rhagor o wybodaeth

Anogir ymgeiswyr i ofyn am gyngor a chanllawiau gan dîm Wsrid Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd gan rai cyrff cyhoeddus sy’n cymryd rhan brofiad o gystadlaethau Contractau Arloesi SBRI y gellir ei froceru i helpu eraill. Gellir dod o hyd i fanylion cyrff cyhoeddus a gymerodd ran mewn cystadlaethau SBRI blaenorol trwy gyfeirio at yr astudiaethau achos sydd wedi’u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: Byw’n Glyfar – Astudiaethau Achos o Raglenni HYBRID ac WBRID Peilot SBRI.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses ymgeisio neu’r rhaglen ehangach, mae croeso i chi anfon e-bost atom yn: WSRID@energyservice.wales.

# Y Broses Asesu

Bydd y penderfyniad terfynol ar eich cais yn cael ei wneud gan Fwrdd Rhaglen Byw’n Glyfar Llywodraeth Cymru. Pan fo’n briodol, efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth bellach neu eglurhad o fanylion sydd wedi’u cynnwys yn eich cais.

**23:59** ar **30 Medi 2024** yw’r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i ddod i gyfweliad yn ystod yr wythnos sy’n dechrau ar 7 Hydref 2024.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw’r hawl i newid dyddiadau cyflwyno a/neu hysbysu.

Bydd pob cais cymwys yn cael ei ystyried gan Raglen Bwrdd prosiect Byw’n Glyfar yn erbyn meini prawf a amlinellir isod. **Bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i wneud cyflwyniad 10 munud cryno wedi’i amseru i aelodau Bwrdd Rhaglen Byw’n Glyfar**. Bydd y cyflwyniad yn cael ei ddilyn gan 45-50 munud o gwestiynau ac atebion ar eich cynnig.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am benderfyniad Rhaglen Bwrdd Byw'n Glyfar o fewn wythnos o'r cyfweliad, oni bai fod gohebiaeth bellach yn hysbysu'n wahanol.

Bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu i geisiadau Her llwyddiannus a gymeradwyir gan Fwrdd Rhaglen Byw'n Glyfar.

Y cais fydd y sail ar gyfer yr Her a dyma fydd y ddogfen y bydd y cytundeb ariannu rhwng Gweinidogion Cymru a'r ymgeisydd yn seiliedig arni oni bai y cytunir yn wahanol.

## Meini Prawf Asesu

Bydd Rhaglen Bwrdd Byw'n Glyfar yn ystyried ceisiadau Her yn erbyn meini prawf:

- Cynnig Ansawdd yr Her [Cwestiynau ymgeisio 2.1 a 2.2]
- Cydweddu Strategaethau a mynd i'r afael â gweithredoedd economaidd allweddol gan gynnwys datgarboneiddio, datblygu sgiliau ac amcanion LAEP [Cwestiwn ymgeisio 2.3]
- Potensial i annog manteision lleol a rhanbarthol a hybu cydweithrediad trwy gymunedau ymarfer [Cwestiwn ymgeisio 2.4]
- Potensial masnacheiddio [Cwestiwn ymgeisio 2.4]
- Gwaith ymchwil a wnaed i nodi'r her [Cwestiwn ymgeisio 2.5]
- Yr angen am atebion arloesol i fynd i'r afael â'r her [Cwestiwn ymgeisio 2.6]
- Ymrwymiad y Perchennog Her – gan gynnwys adnoddau a pharodrwydd i reoli a chyflawni'r her [Adran ymgeisio 3]
- Strategaeth monitro a gwerthuso [Cwestiwn ymgeisio 4.2]

Bydd meini prawf yn cael eu hasesu ar sail:

| **Tabl Asesu** | | | **Sgôr Uchaf Sydd ar Gael (100)** |
|---|---|---|---|
| **Gallu** | **Tystiolaeth** | **Sylw** | |
| Mae'r ymgeisydd yn debygol o allu bodloni gofynion y rhaglen | Mae Cynnwys y Cais yn gynhwysfawr ac yn berthnasol ac wedi'i brofi gan dystiolaeth annibynnol pan fo'n bosibl | **Hyder Llwyr** | **100** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r cais yn ddigonol (o ran ansawdd), yn argyhoeddiadol ac yn gredadwy. | **Hyder** | **80** |
| Risg fach na fydd yr ymgeisydd yn gallu bodloni gofynion y rhaglen | Ceir mân fylchau yn y cais, neu i raddau bach nid yw'n argyhoeddi neu mae ganddo ddiffyg hygrededd | **Mân Bryderon** | **60** |
| Risg gymedrol na fydd yr ymgeisydd yn gallu bodloni gofynion y rhaglen | Ceir bylchau cymedrol yn y cais, nid yw'n argyhoeddi neu mae ganddo ddiffyg hygrededd | **Pryderon Cymedrol** | **40** |
| Risg sylweddol na fydd yr ymgeisydd yn gallu diwallu anghenion y rhaglen | Ceir bylchau mawr yn y cais, nid yw'n argyhoeddi neu mae ganddo ddiffyg hygrededd mewn sawl ffordd | **Pryderon Mawr** | **20** |

Gofynnir i geisiadau nad ydynt yn darparu tystiolaeth ddigonol yn erbyn y meini prawf i ddarparu manylion ychwanegol i roi sylw i bwyntiau a godir gan Fwrdd Rhaglen Byw'n Glyfar er mwyn bwrw ymlaen â dyfarniad yr her. Bydd yr hyn a ddysgir o'r broses hon yn cael ei ddefnyddio i hysbysu a gwella'r broses o lunio'r rhaglen yn y dyfodol.

## Atodiad A – Telerau ac amodau cyfreithiol

### Eiddo Deallusol

Cedwir eiddo deallusol gan fusnesau sy'n cymryd rhan yn y cystadlaethau, a chaiff hawliau defnyddiwr eu harfer gan y Perchennog Her o dan gontract ar wahân ar sail telerau teg a rhesymol.

Anogir perchnogion her i gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar y driniaeth o eiddo deallusol wrth gontractio gyda busnesau yn unol â rheolau caffael cyn-fasnachol.

Mae mwyafrif y cwestiynau gan fusnesau sy'n cymryd rhan yn canolbwyntio ar eiddo deallusol. Defnyddiwyd y datganiad isod gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol ac mae'n ceisio egluro'r sefyllfa. Fe'i darperir i'ch helpu chi fel darpar reolwr cystadleuaeth WSRID i ddeall y telerau y byddai angen i chi ymgysylltu â busnesau arnynt.

*"Datganiad Eiddo Deallusol*
*Wrth gynnal y gystadleuaeth WSRID, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â rheolau Caffael Cyn-fasnachol y Comisiwn Ewropeaidd a Deddf Caffael 2024. Rydym yn annog masnacheiddio pob cynnyrch a phroses newydd a allai ddeillio o'r gystadleuaeth hon, ac nid ydym yn bwriadu mewn unrhyw ffordd rhoi unrhyw*

*sefydliad o dan anfantais o fanteisio'n llwyddiannus ar unrhyw eiddo deallusol sy'n cael ei greu drwy'r prosiect.*

*Fodd bynnag, gan gydnabod ein rhannu risg trwy ein cyllid a'n cymorth yn yr ymchwil a datblygu ac yn unol â gofynion y rheolau Caffael Cyn-fasnachol, hoffem ni fel y prynwr cyhoeddus sicrhau bod eraill yn cael y cyfle i elwa o'n buddsoddiad yn yr arloesiadau newydd a gefnogir drwy'r broses WSRID hon. Mae hyn yn cynnwys opsiwn i'w gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu mynediad diderfyn am ddim i'r holl eiddo deallusol a allai gael ei greu drwy'r cyllid WSRID i Lywodraeth Cymru, ac i drydydd partïon trwy drwyddedau nad ydynt yn gyfyngol o dan amodau marchnad.*

*Byddai unrhyw ddatblygiad neu weithgareddau pellach sy'n arwain at gostau ychwanegol gan yr ymgeisydd yn ddiweddarach a thu hwnt i'r WSRID angen cytundeb cyfreithiol ar wahân ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â rheolau tendro'r llywodraeth.*

*Nid yw prosiect WSRID llwyddiannus yn sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn caffael yr arloesiad dilynol".*

## Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 y DU

Mae Rheoli Cymorthdaliadau yn troshaenu rheolau'r Undeb Ewropeaidd (UE) a Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar gymorthdaliadau.

Mae Contractau Arloesi SBRI yn cynnwys caffael gwasanaethau Ymchwil a Datblygu ar werth marchnad teg ac nid ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw feini prawf rheoli cymorthdaliadau sy'n berthnasol i gyllid grant yn nodweddiadol.

Trwy fabwysiadu model Contractau Arloesi SBRI, mae WSRID yn defnyddio gweithrediad y DU o fframwaith Caffael Cyn-fasnachol yr UE sy'n caniatáu esemptiad o gyfarwyddebau caffael cyhoeddus ar gyfer caffael gwasanaethau Ymchwil a Datblygu (gweler Erth. 16f 2004/18/EC, Erth. 24e 2004/17/EC).

Mae SBRI yn ddull sy'n cynnig esemptiad o reolau Caffael yr UE wrth gaffael gwasanaethau Ymchwil a Datblygu. Ystyrir mai Sefydliadau Sector Cyhoeddus fydd y cyrff hynny yng Nghymru sy'n gwario arian sector cyhoeddus ac sy'n ddarostyngedig i reolau caffael yr UE.

Y Sefydliad Sector Cyhoeddus yng Nghymru sy'n arwain yr her sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â rheolau Rheoli Cymorthdaliadau, gan fod yn rhaid i Heriau gyd-fynd â rheolau caffael cyn-fasnachol yr UE a SBRI:

i) **Y cwmpas yw gwasanaethau Ymchwil a Datblygu yn unig:** Gall Ymchwil a Datblygu gynnwys gweithgareddau fel archwilio a dylunio atebion, prototeipio, hyd at ddatblygiad gwreiddiol cyfanswm cyfyngedig o gynhyrchion neu wasanaethau cyntaf ar ffurf cyfres brawf.

"Gallai datblygiad gwreiddiol cynnyrch neu wasanaeth cyntaf gynnwys cynhyrchiad neu gyflenwad cyfyngedig er mwyn ymgorffori canlyniadau profion yn y maes ac i ddangos bod y gwasanaeth neu gynnyrch yn addas i'w gynhyrchu neu ei gyflenwi mewn swmp i safonau ansawdd derbyniol". Nid yw Ymchwil a Datblygu yn cynnwys gweithgareddau datblygu masnachol fel cynhyrchu swmp, cyflenwi i ddarganfod hyfywedd masnachol neu i adennill costau Ymchwil a Datblygu, integreiddio, teilwra ac addasiadau fesul tipyn.

(ii) **Gweithredu rhannu risgiau a buddion**: Ym maes caffael cyn-fasnachol, nid yw'r prynwr cyhoeddus yn cadw'r canlyniadau Ymchwil a Datblygu ar gyfer ei ddefnydd ei hun yn unig: Mae awdurdodau cyhoeddus a diwydiant yn rhannu risgiau a buddion yr Ymchwil a Datblygu sydd eu hangen i ddatblygu atebion arloesol newydd sy'n perfformio'n well na'r rhai sydd ar gael ar y farchnad.

(iii) **Caffael cystadleuol sydd wedi'i gynllunio i esemptio cymorth gan y Wladwriaeth**: Mae trefnu'r rhannu risgiau a buddion a'r broses gaffael gyfan mewn ffordd sy'n sicrhau cymaint o gystadleuaeth â phosibl, tryloywder, natur agored, tegwch a phrisio ar amodau'r farchnad yn galluogi'r prynwr cyhoeddus i nodi'r atebion gorau posibl y gall y farchnad eu cynnig.

Gall sefydliadau sector cyhoeddus wneud cais am 100% o gyllid ar gyfer eu costau cymwys o dan yr amodau canlynol:

- maent yn gwneud gwaith ymchwil, a all fod yn waith arbrofol, damcaniaethol neu ymchwilio beirniadol i ennill gwybodaeth, sgiliau neu ddealltwriaeth sy'n hanfodol i'r prosiect
- maent yn bodloni gofynion ar gyfer rhannu canlyniadau eu prosiect ac yn datgan yn y cais sut y byddant yn gwneud hyn
- maent yn cynnwys eu costau cymwys at ddibenion ymchwil yng nghyfanswm cyfranogiad y sefydliad ymchwil
- maent yn gwneud yn siŵr nad ydynt yn ymgeisio am gyllid tuag at gostau sydd eisoes yn cael eu talu gan bwrs y wlad fel llafur a gorbenion

## Cyfrinachedd

Er y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu unrhyw wybodaeth a ddynodwyd gennych chi ei bod yn gyfrinachol a ddatgelir yn rhan o Gais, mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o gyfyngiadau a gyflwynir gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ar allu Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â'ch disgwyliadau o gyfrinachedd. Gall Llywodraeth Cymru gynnal cyfrinachedd eich gwybodaeth yn unol â'i rhwymedigaethau o dan y Ddeddf yn unig.

## Atodiad B – proses Contractau Arloesi SBRI

Mae Contractau Arloesi SBRI yn cynnig atebion arloesol i heriau a wynebir gan y sector cyhoeddus. Gall hyn arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae rhaglen a redir gan ddefnyddio model Contractau Arloesi SBRI:

- yn cefnogi twf economaidd ac yn galluogi datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau arloesol trwy gaffaeliad cyhoeddus o Ymchwil a Datblygu
- yn creu cyfleoedd busnes newydd i gwmnïau
- yn darparu llwybr i'r farchnad i'w syniadau
- yn pontio'r bwlch cyllid sbarduno a welir gan lawer o gwmnïau camau cynnar

Mae cystadlaethau Contractau Arloesi SBRI yn agored i bob sefydliad a all ddangos llwybr i'r farchnad i'w hateb. Mae model Contractau Arloesi SBRI yn arbennig o briodol ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, gan fod y contractau o werth cymharol fach ac yn gweithredu ar amserlenni byr. Ariennir datblygiadau 100% ac maent yn canolbwyntio ar anghenion penodol a nodwyd, gan gynyddu'r siawns o fanteisio.

Bydd cyflenwyr ar gyfer pob prosiect yn cael eu dethol trwy broses cystadleuaeth agored ac yn cadw'r eiddo deallusol a gynhyrchir o'r prosiect, gyda hawliau defnydd penodol yn cael eu cadw gan yr awdurdod contractio. Mae'r model yn cynnig cyfle gwych i ddarganfod cwsmer cynnar ar gyfer technoleg newydd ac i ariannu ei datblygiad.

Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.ukri.org/what-we-do/browse-our-areas-of-investment-and-support/innovate-uk-contracts-for-innovation/




Ffigur 1. Enghraifft o broses gyffredinol ar gyfer SBRI Contractau Arloesi. Ffynhonnell: [https://sbriwales.co.uk/cy/proses-sbri/](https://sbriwales.co.uk/cy/proses-sbri/)

# Atodiad C – Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae'r diagram canlynol yn crynhoi swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol y swyddogaethau sy'n ofynnol i gyflawni Rhaglen WSRID 1.0 Contractau Arloesi SBRI hyd at ddiwedd Cam Un.

| Llywodraeth Cymru | Perchnogion Her | Cyflenwyr Prosiectau |
|---|---|---|
| Datblygu dogfennau canllaw ar gyfer y rhaglen | Sefydlu llywodraethu priodol i gynnal cystadleuaeth. | Cwblhau a chyflwyno cynnig. |
| Briff ac eglurhad ymgeisio ar gyfer darpar Berchnogion Her ac ymgeiswyr prosiect. | Nodi her ddatgarboneiddio seiliedig ar leoedd. | Paratoi adroddiadau monitro rheolaidd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol y prosiect. |
| Arfarnu ceisiadau a chytuno ar heriau. | Cwblhau a chyflwyno ffurflen gais. | Paratoi adroddiad prosiect terfynol. |
| Cyflwyno llythyrau dyfarnu grant i ymgeiswyr llwyddiannus. | Cynnal proses gaffael ar gyfer Cam Un (tendro, egluro, arfarnu, dyfarnu a chyflwyno contract, gweinyddu cyllid). | |
| Gwaith paratoadol gyda Pherchnogion Her (e.e. cynorthwyo gyda dogfennau, cyfathrebu, ymholiadau) | Cyswllt o ddydd i ddydd ar gyfer prosiectau sy'n derbyn cyllid. | |
| Adrodd i Fwrdd y Rhaglen ar bwyntiau penderfynu allweddol. | Sefydlu prosesau monitro a gwerthuso prosiectau rheolaidd yn unol â phrosesau SBRI Contractau Arloesi. | |
| Darparu cyngor a chanllawiau i Berchnogion Her i gefnogi'r broses dendro. | | |
| Prosesu a rheoli hawliadau grant. | | |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymuned ymarfer WSRID trwy ddarparu gweithdai rhannu gwybodaeth gyda phrosiectau | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor technegol wedi'i deilwra i berchnogion her a'u prosiectau. | | |

## Atodiad D – Geirfa

| **Term** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Her | Problem neu angen datgarboneiddio system gyfan penodol yng nghyd-destun yr LAEPs y mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae cyllid ar gael ar gyfer hyd at 5 her yng Ngham Un Rhaglen WSRID 1.0. |
| Perchennog Her | Sefydliad cyhoeddus a ariennir i gyflawni'r Her, sy'n gyfrifol am ymchwilio i themâu o fewn iddi a chaffael contractwyr i redeg prosiectau. |
| Cystadleuaeth | Proses gaffael gystadleuol sy'n dyfarnu contract(au) i'r cyflenwr/wyr sy'n sgorio uchaf yn erbyn cyfres o feini prawf a ddiffiniwyd. |
| Rhaglen | Yn cyfeirio at y grŵp o heriau a phrosiectau a nodir yn rhan o WSRID 1.0 |
| Contractau Arloesi SBRI | Y model Menter Ymchwil Busnesau Bach. Dyma gyfrwng caffael cyn-fasnachol blaenllaw sector cyhoeddus y DU sy'n caffael ymchwil a datblygu i gefnogi'r broses o greu cynhyrchion ac atebion newydd i fynd i'r afael ag anghenion na ddiwallwyd tybiedig. Defnyddiwyd SBRI ar gyfer rhaglenni HYBRID ac WBRID o dan Byw'n Glyfar. Ers mis Mai 2024, ail-frandiwyd SBRI gan UKRI fel "Contractau Arloesi", a dyna pam y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel Contractau Arloesi SBRI. |
| Seiliedig ar leoedd | Mae dull seiliedig ar leoedd yn cydnabod y bydd gweithredu ymrwymiadau a nodau sero net yn fwy llwyddiannus os bydd yr atebion yn gysylltiedig â'r cyd-destun unigryw y maent yn cael eu rhoi ar waith ynddo ac yn gweithredu adnoddau, gweithredoedd ac ymgysylltu lleol.[3] |
| Systemau cyfan | Mae dulliau system gyfan yn cyfeirio at atebion sy'n cysylltu mewn system glyfar neu'n cynnig y cyfle i wneud hynny, fel bod rhyngweithio rhwng gwahanol systemau ynni. Mae effeithlonrwydd cost a gweithredu yn egwyddorion allweddol i'r dull ar draws cynhyrchu ynni, cynhyrchiad ac i leihau colledion a chreu cyfleoedd cyfnewid. |

[3] *Place based approaches to net zero*, Mott Macdonald (2021)